PROFFIL Y RÔL

Teitl y Rôl:	Cwnstabl Gwirfoddol
Gradd:	Cwnstabl Gwirfoddol
Atebol i:	Rhingyll
Yn gyfrifol am:	Dim Cyfrifoldeb Goruchwylio
Cydgysylltu â'r canlynol:	Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, y Cyhoedd, Sefydliadau Allanol, Asiantaethau a Phartneriaethau
Lefel Fetio Ofynnol:	RV/CTC - Fetio Recriwtio a Gwiriad Gwrthderfysgaeth
Dyddiad Cyhoeddi:	26/06/ 2019

Diben y Rôl	Swyddog patrolio amlwg mewn lifrai â chysylltiad/cyfranogiad cymunedol, sicrwydd i'r cyhoedd naill ai ar dimau ymateb, timau cymdogaethau mwy diogel, timau ysgolion mwy diogel, timau canol trefi mwy diogel neu dimau trafnidiaeth fwy diogel.
Prif Gyfrifoldebau	**Sgiliau Galwedigaethol Cenedlaethol Cwnstabliaid Gwirfoddol**
	Arestio unigolion, eu cadw'n gaeth neu roi gwybod amdanynt. Er mwyn gallu gweithredu'n gyfreithlon ac mewn modd cytbwys a chymesur, dylech ystyried effaith eich gweithredoedd ar eraill.
	Cynnal chwiliadau systematig o gerbydau, eiddo a mannau agored Mae'n rhaid cynnal chwiliadau mewn modd cyfreithlon a moesegol, gan ddefnyddio dulliau chwilio a gymeradwywyd. Sefydlu rhesymau ac awdurdod cyfreithiol i gynnal y chwiliad.
	Rheoli gwrthdaro Adnabod a delio ag amrywiaeth o ymddygiadau a gweithredoedd, gan ymateb mewn ffyrdd nad yw'n ennyn gwrthdaro, a cheisio lleddfu sefyllfaoedd lle ceir ymddygiad o'r fath.
	Rhoi ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau Gallu casglu gwybodaeth am y digwyddiad. Yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd, bydd angen i chi sefydlu natur y digwyddiad, a chynllunio camau gweithredu yn unol â hynny. Os yw'n ddigwyddiad mawr neu gritigol, ac mai chi yw'r cyntaf i gyrraedd y lleoliad, bydd angen i chi gymryd rheolaeth dros dro nes i'r unigolyn priodol gyrraedd.
	Rhoi cymorth cychwynnol i ddioddefwyr, goroeswyr a thystion ac asesu eu hangen am ragor o gymorth Rhoi cyswllt a chymorth cychwynnol i ddioddefwyr, goroeswyr a thystion y mae ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol wedi effeithio arnynt. Yn achos profedigaeth, gall hyn hefyd gynnwys teulu a ffrindiau'r dioddefwr.
	Chwilio unigolion a'u heiddo personol Pennu rhesymau a meddu ar yr awdurdod cyfreithiol i gynnal y chwiliad. Nodi ac ymdrin ag unrhyw risgiau posibl sy'n bodoli a/neu argyfyngau sy'n codi.
	Arall
	Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chynrychiolaeth Cyflwyno delwedd a gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid mewnol ac allanol. Mae'n ofynnol i unigolion ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid mewnol ac allanol ar bob lefel, er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel, cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â materion diogelu data a safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. Yn ogystal, bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â

	dyletswyddau ychwanegol (o'r math) a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt o anghenraid yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd.
Cymwysterau	**Hanfodol** Cymhwyster lefel 3 o leiaf neu gymhwyster cyfatebol
Sgiliau	**Hanfodol** Rhaid meddu ar sgiliau cyfrifiadurol a bod yn hyddysg mewn rhaglenni Microsoft a Niche Yn gallu deall hanfod sgwrs Gymraeg ac yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau ffôn. Yn gallu cyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. (Isafswm lefel os bydd wedi gweithio mewn sefydliad/amgylchedd lle siaradir Cymraeg yn flaenorol). Cymraeg i Oedolion - Mynediad. **Yn sgîl cyflwyno Safonau'r Gymraeg ym mis Mawrth 2017, mae'n rhaid bod gennych y lefel briodol o Gymraeg (lefel 2) neu mae'n rhaid i chi gyrraedd y lefel briodol o fewn 12 mis i gael eich penodi**
Gwybodaeth	**Hanfodol** Rhaid meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cyfrifoldebau statudol sy'n gysylltiedig â rôl Cwnstabl.
Cymwyseddau	**Ymwybodol yn Emosiynol** • Trin eraill â pharch, goddefgarwch a thosturi. • Cydnabod a pharchu ystod o wahanol safbwyntiau, gwerthoedd a chredoau o fewn cylch gwaith y gyfraith. • Yn ddigynnwrf ac yn meddwl am y ffyrdd gorau o reoli'r sefyllfa yn wyneb pryfociad. • Deall emosiynau personol a gwybod pa sefyllfaoedd a allai effeithio ar y gallu i ymdrin â straen a phwysau. • Gofyn am gymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen. • Deall gwerth amrywiaeth. • Cyfathrebu'n glir ac mewn iaith syml sy'n hawdd i'w ddeall. • Ceisio deall meddyliau a phryderon eraill, hyd yn oed pan na allant fynegi eu hunain yn glir. **Cymryd perchenogaeth** • Mynd ati i adnabod ac ymateb i broblemau. • Mynd i'r afael â thasg â brwdfrydedd, gan ganolbwyntio ar ragoriaeth ym maes gwasanaethau cyhoeddus. • Gofyn am adborth yn rheolaidd er mwyn deall ansawdd fy ngwaith ac effaith fy ymddygiad. • Cydnabod lle y gellid helpu eraill ac yn barod i dderbyn tasgau ychwanegol i'w cefnogi, lle y bo'n briodol. • Rhoi adborth sy'n ddealladwy ac yn adeiladol i eraill. • Cymryd cyfrifoldeb am weithredoedd personol, cadw at addewidion a chyflawni camau gweithredol. • Cyfaddef camgymeriadau a chymryd camau i'w cywiro. • Dangos eich bod yn falch o gynrychioli'r gwasanaeth heddlu. • Deall cryfderau personol a'r meysydd y mae angen eu datblygu a chymryd cyfrifoldeb am fy nysgu fy hun i lenwi bylchau. **Cydweithio** • Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr.

	• Unigolyn sy'n hawdd mynd ato, ac yn egluro pethau'n dda er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin. • Treulio amser yn dod i adnabod pobl a'u safbwyntiau er mwyn meithrin cydberthynas. • Trin pobl â pharch fel unigolion a mynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol. • Agored a thryloyw o ran fy nghydberthynasau ag eraill. • Sicrhau cyfathrebu clir a phriodol . **Darparu, Cefnogi ac Ysbrydoli** • Yn barod i dderbyn tasgau heriol er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth yn barhaus a chefnogi fy nghydweithwyr. • Deall sut mae fy ngwaith yn cyfrannu at y gwasanaeth heddlu ehangach. • Deall bod darparu gwasanaethau effeithlon yn gyfrifoldeb cyfunol. Cymryd cyfrifoldeb personol am sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol yn annibynnol a chydag eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau. • Cydwybodol wrth weithredu, ac yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau ac i chwalu unrhyw rwystrau a allai atal neu rwystro'r gwasanaeth rhag cael ei ddarparu. • Cefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau ac i gael yr effaith gywir. • Ymgyfarwyddo â newidiadau mewn amgylchoedd mewnol ac allanol. • Arwain drwy esiampl o ran yr ymddygiad maent yn ei ddisgwyl gan eraill, a gweithredu er lles y cyhoedd a'r gwasanaeth heddlu. **Dadansoddi'n Gritigol** • Cydnabod yr angen i feddwl yn feirniadol am faterion. Gwerthfawrogi'r defnydd o ddadansoddi a phrofi wrth blismona. • Prosesu gwybodaeth yn gyflym ac yn gywir. • Gallu gwahanu gwybodaeth a phenderfynu a yw'n amherthnasol, yn berthnasol neu'n bwysig. • Datrys problemau yn rhagweithiol drwy ddeall y rhesymau drostynt, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o dystiolaeth a fy mhrofiadau i weithredu. • Cyfeirio at weithdrefnau a chynseiliau, fel sydd angen, cyn gwneud penderfyniadau. • Pwyso a mesur manteision ac anfanteision camau gweithredu posibl, gan feddwl am y risgiau posibl a defnyddio'r ffordd o feddwl hon i lywio ein penderfyniadau. • Cydnabod bylchau ac anghysondeb mewn gwybodaeth ac yn ystyried y goblygiadau posibl. • Gwneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth, ein gwerthoedd a'r Cod Moeseg. **Arloesi a Meddwl yn Agored** • Dangos fy mod yn agored i newid syniadau, rhagdybiaethau a ffyrdd o weithio. • Rhannu awgrymiadau â chydweithwyr a siarad er mwyn helpu i wella arferion a dulliau presennol o weithio. • Ystyried fy ffordd fy hun o weithio yn gyson ac yn adolygu prosesau a gweithdrefnau'n rheolaidd er mwyn gwneud gwelliannau'n barhaus. • Addasu i newid ac yn hyblyg yn ôl yr angen, ac yn annog eraill i wneud yr un peth. • Dysgu o fy mhrofiadau fy hun, a gwrthod caniatáu i ragdybiaethau ddylanwadu arnaf yn ormodol.

Dull Asesu

Cymwysterau	X
Sgiliau	X
Gwybodaeth	X
Cymhwysedd - Ymwybodol yn Emosiynol	
Cymhwysedd - Cymryd Perchenogaeth	
Cymhwysedd - Cydweithio	
Cymhwysedd - Darparu, Cefnogi ac Ysbrydoli	
Cymhwysedd - Dadansoddi'n Feirniadol	
Cymhwysedd - Arloesol ac yn meddwl yn agored	